# VARIEGATED YELLOW ARCHANGEL

*(Lamiastrum galeobodlon ssp argentatum)*

## NATIVE RANGE

Variegated Yellow Archangel is native to Western Europe.

## CURRENT HABITAT

Widespread throughout the United Kingdom a problem in woodland habitats.

## SPECIES DESCRIPTION

Variegated Yellow Archangel is a semi evergreen perennial with a mint like appearance and grows to approx 60cm tall. The heart shaped leaves are green with silver variegation, a rough texture and a toothed margin. Variegated Yellow Archangel spreads by stolons, above ground runners that root at the nodes. It produces yellow flowers between April and June. The flowers are hooded, double lipped and occur in whorls of around 10. Variegated Yellow Archangel will thrive in dense shade and dry conditions. Because of this ability to tolerate shady conditions Variegated Yellow Archangel is spreading throughout native woodlands and reducing biodiversity.



## IDENTIFICATION FEATURES

### STEMS

Square stems, green/purple in colour approx

### LEAVES

Are oval in shape irregularly toothed and quite hairy in texture. They are in opposing pairs where the stem nodes are found – can root from here if touching soil. Oval in shape with irregularly toothed appearance and quite hairy in texture.



White markings can vary in size depending upon light levels. May have purplish tinge in cooler conditions.

### FLOWERS

Small lemon coloured flowers borne on the leaf axis close to the stems.



# A GUIDE TO IDENTIFYING, LOCATING AND CONTROLLING PROBLEM WEEDS




### SEEDS

Variegated Yellow Archangel is thought to to produce small amounts of seeds which inconspicuous and brown in colour. The main method of spread is through vegetative means.

## CONTROLS

**Problems with Variegated Yellow Archangel can be addressed with herbicide or mechanical controls.**

### MECHANICAL CONTROL

Small areas can be pulled easily by hand and the plant will not survive continued mowing or cutting.

### CHEMICAL CONTROL

Treatment with Glyphosate is effective along with some selective herbicides i.e 2,4-D Amine or MCPA.

If herbicides are to be used on or near a watercourse then prior approval will need to be sought from the Environment Agency.

## LEGISLATION

It is an offence under the wildlife and countryside act 1981 to plant or cause to grow wild any plant listed in shedule nine part two of the act. Variegated Yellow Archangel is on this list.

## CONTACT

**Caerphilly County Borough Council**
Tel: 01495 272670 / 07766824603
www.caerphilly.gov.uk

**Blaenau Gwent County Borough Council**
Tel: 01495 355531
www.blaenau-gwent.gov.uk

**Merthyr Tydfil County Borough Council**
Tel: 01685 725000
www.merthyr.gov.uk

**Rhondda Cynon Taff County Borough Council**
Tel: 01443 400563
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk

**Torfaen County Borough Council**
Tel: 01495 762200
www.torfaen.gov.uk

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

# MARDDANHADL FELEN ARIANDDAIL

*(Lamiastrum galeobodlon ssp argentatum)*

## CYNEFIN BRODOROL

Daw'r farddanhadlen felen arianddail o Orllewin Ewrop.

## CYNEFIN PRESENNOL

I'w chael yn eang drwy'r Deyrnas Unedig, ac yn broblem mewn cynefinoedd coetir.

## DISGRIFIAD O'R RHYWOGAETH

Planhigyn lluosflwydd lled-fytholwyrdd yw'r farddanhadlen felen arianddail. Mae'n edrych yn debyg i fintys ac yn tyfu hyd at oddeutu 60cm o uchder. Mae'r dail siâp calon yn wyrdd â smotiau arian, gyda gwead garw ac ymyl danheddog. Bydd y farddanhadlen felen arianddail yn defnyddio stolonau i ymledu, sef ymledyddion ar wyneb y ddaear y mae eu gwreiddiau'n tarddu o'r cygnau. Mae'n cynhyrchu blodau melyn rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Mae cwfl am y blodau, sy'n ddeuwefusol ac yn ymddangos mewn sidelli sy'n cynnwys oddeutu 10 ohonynt. Bydd y farddanhadlen felen arianddail yn ffynnu o dan gysgod trwchus ac mewn amgylchedd sych. Oherwydd ei gallu i oddef cysgod trwchus, mae'r farddanhadlen felen arianddail yn ymledu drwy'r coetiroedd brodorol ac yn lleihau bioamrywiaeth.



## NODWEDDION ADNABOD

### COESYNNAU

Coesynnau sgwâr, lliw gwyrdd/piws

### DAIL

Yn siâp hirgylch ag ymyl danheddog afreolaidd, ac yn weddol flewog eu gwead. Fe'u ceir mewn parau cyferbyniol ar gygnau'r coesyn - gallant greu gwreiddyn o'r fan hon os ydynt yn cyffwrdd y pridd.



Gall y marciau gwyn amrywio o ran maint, yn dibynnu ar y golau. Gall gwawr biws fod arnynt mewn tywydd oer.

### BLODAU

Blodau bychain lliw lemwn sy'n tarddu o echel y dail yn agos at y coesynnau.






## HADAU

Tybir bod y farddanhadlen felen arianddail yn cynhyrchu ychydig o hadau sy'n frown ac nad ydynt i'w gweld yn amlwg. Y prif ddull o ymledu yw drwy lystyfiant.

## RHEOLAETH

**Gellir defnyddio chwynladdwr neu ddulliau mecanyddol i ymdrin â phroblemau'n gysylltiedig â'r farddanhadlen felen arianddail.**

## RHEOLAETH FECANYDDOL

Gellir tynnu'r planhigyn yn rhwydd â llaw o arwynebeddau bychain, ac ni fydd yn goroesi os caiff ei dorri'n barhaus.

## RHEOLAETH GEMEGOL

Mae trin y planhigyn â glyffosad yn effeithiol, ynghyd â rhai chwynladdwyr detholus, h.y. 2,4-D Amine neu MCPA.

Os bwriedir defnyddio chwynladdwyr ar, neu wrth ymyl cwrs dŵr, bydd angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

## DEDDFWRIAETH

O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd plannu neu achosi i unrhyw blanhigyn a restrir yn atodlen naw, rhan dau'r Ddeddf, dyfu'n wyllt. Mae'r farddanhadlen felen arianddail wedi'i chynnwys ar y rhestr hon.

## MANYLION CYSWLLT

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
Ffôn: 01495 272670 / 07766824603
www.caerffili.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
Ffôn: 01495 355531
www.blaenau-gwent.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
Ffôn: 01685 725000
www.merthyr.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Ffôn: 01443 400563
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
Ffôn: 01495 762200
www.torfaen.gov.uk

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government